| | |
|---|---|
| Adroddiad i’r: | Cabinet |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 30 Ebrill 2019 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cyng Bobby Feely a’r Cyng Julian Thompson-Hill |
| Awdur yr Adroddiad: | Graham Boase |
| Teitl: | Cyflwyno Model Cyflenwi Amgen (MCA) ar gyfer amrywiol weithgareddau / swyddogaethau sy’n ymwneud â hamdden |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Ystyried yr Achos Busnes drafft a gwybodaeth gysylltiedig ar gyfer cyflwyno Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig Drwy Warant (LATC) nid er elw ym mherchnogaeth y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Ceisio barn y Cabinet mewn perthynas â’r Achos Busnes drafft (Atodiad A) ar gyfer sefydlu Cwmni Masnachu’r Awdurdod Lleol (LATC), ar gyfer ystod o weithgareddau/ swyddogaethau "mewn cwmpas" a gytunwyd arnynt yn flaenorol yn ymwneud â hamdden cyn adrodd yn ffurfiol i'r Cabinet (Ebrill), a’r Cyngor (Mai), fel y gellir cyflawni’r arbedion a ragwelir o flwyddyn ariannol 2020/21.

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn argymell fod y Cyngor:-

3.1 Yn cefnogi’r Achos Busnes Terfynol ar gyfer y Prosiect (Bydd hyn yn cynnwys mireinio’r Achos Busnes drafft yn Atodiad A).

3.2 Rhoi cefnogaeth i sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol cyfyngedig drwy Warant (LATC) nid er elw.

3.3 Cefnogi penodiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Parth Cyhoeddus i Fwrdd yr LATC.

3.4 Rhoi cefnogaeth i gadw’r enw presennol ‘Hamdden Sir Ddinbych' i’r LATC.

3.5 Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad B, Cyfeirif 564), fel rhan o’u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae’r Achos Strategol yn amlinellu her yr hinsawdd ariannol presennol, a’r posibilrwydd y gall y Cyngor wneud arbedion (i ddechrau drwy ostyngiadau Trethi Annomestig Cenedlaethol ac esemptiadau TAW), ynghyd ag unrhyw gyfleoedd

masnachu allanol yn y dyfodol. Er fod ystyriaeth i ADM o'r math hwn yn fenter newydd i'r Cyngor, mae sawl Cyngor arall ledled y DU eisoes yn defnyddio ADMs tebyg i ddarparu ystod o swyddogaethau. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r prosiect hwn, mae Swyddogion wedi elwa ar wybodaeth a gwersi a ddysgwyd gan Gynghorau eraill, o fewn Gogledd Cymru. Mae Atodiad C yn rhoi manylion cwmnïau model cyflenwi amgen a sefydlwyd a rhai o'r gwersi a ddysgwyd.

4.2 Cwblhawyd proses asesu i bennu cwmpas y prosiect, ac roedd y Bwrdd Prosiect yn defnyddio matrics sgorio i lywio'r broses hon. Mae'r cyfleusterau a'r swyddogaethau o fewn y cwmpas yn cynnwys y 7 x Canolfan Hamdden Sirol, Nova Prestatyn, Theatr Pafiliwn y Rhyl, Arena Ddigwyddiadau a swyddogaethau digwyddiadau'r Rhyl, Neuadd y Dref y Rhyl, Canolfan Grefft Rhuthun, Pafiliwn Llangollen, Gweithrediadau a Chefnogaeth Busnes ar gyfer Hamdden, Arlwyo Masnachol (1891, SC2, Café R), a Hamdden Strategol. Yn seiliedig ar y rhestrau staffio presennol mae oddeutu 244 aelod o staff sydd o fewn cwmpas y prosiect. Yn 2018/19, cymhorthdal y Cyngor mewn perthynas â chyfleusterau, swyddogaethau a gweithgareddau o fewn y cwmpas oedd tua £3 miliwn. Mae manylion yn cynnwys dadansoddiad o fenthyca cyllid cyfraniadau refeniw, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4E o'r Achos Busnes, sydd o fewn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

4.3 O'r swyddogaethau "o fewn y cwmpas", Hamdden Strategol sydd wedi achosi'r drafodaeth fwyaf. Mae'r ddau Aelod Arweiniol wedi mynegi eu ffafriaeth i Hamdden Strategol i barhau "o fewn y cwmpas". Mae'r swyddogaeth Hamdden Strategol wedi'i fanylu o fewn yr achos Strategol o'r achos busnes (Atodiad A), ar dudalen 15 & 16, lle gellir dod o hyd i fanylion pellach ynglŷn â'r deg maes gweithgaredd allweddol a ddarperir. Mae cynnwys Hamdden Strategol o fewn yr LATC yn galluogi darparu cynnig lles cymunedol / hamdden cydlynus gyda mynediad hawdd i holl drigolion. O safbwynt sefydliadol mae ei gynnwys yn hwyluso trefniadau staffio, galluogi rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ar draws y gwasanaeth, darparu un brand gydag amrywiol bwyntiau mynediad i'r gwasanaeth a galluogi staff i gyfeirio cwsmeriaid i weithgareddau ychwanegol mewn lleoliadau eraill, y gallant fwynhau neu gael budd ohonynt.

4.4 Nid yw cyflwyno newid i'r ddwy swyddogaeth honno "o fewn y cwmpas" ac ad-drefnu'r swyddogaethau hynny "tu allan i'r cwmpas" ar draws strwythur rheoli ehangach y Cyngor heb ei broblemau/ peryglon. Bydd y materion/ risgiau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus drwy gam gweithredu'r prosiect. Er bod bendithion y prosiect yn ymwneud yn bennaf ag arbedion ariannol, rhoddwyd pwyslais hefyd ar sicrhau bendithion ehangach i'r Cyngor, a chynnal ansawdd darpariaeth gwasanaeth.

4.5 Mae'r Achos Masnachol yn cynnig trosolwg manwl ynghylch detholiad model darparu a fyddai'n hwyluso'r arbedion a nodir a diogelu buddiannau'r Cyngor. Ar ddechrau'r broses roedd hyn yn cynnwys gwerthusiad lefel uchel cychwynnol a oedd yn ystyried ystod o ddewisiadau; roedd y rhain yn destun dadansoddiad cyfreithiol manwl a awgrymodd mai LATC fyddai'r model mwyaf priodol ar gyfer y Cyngor.

4.6 O fewn y 'term ambarél' LATC mae nifer o amrywiadau / gwahanol fathau o LATC, a'r un a argymhellir i'r Cyngor yw LATC 'nid er elw' cyfyngedig trwy warant, ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor. Ystyrir mae'r math hwn o LATC yw'r mwyaf priodol i alluogi'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r NNDR a'r TAW i'w wireddu, wrth hefyd ddarparu lefel o reolaeth i ddiogelu buddiannau'r Cyngor. Mae hefyd yn caniatáu

rhyddid i'r LATC fasnachu y tu allan, ac efallai cynhyrchu cyfran o'i incwm o ffynonellau heb law am y Cyngor.

4.7 Byddai'r LATC yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd, a byddai angen i'w gyfansoddiad fod yn gytbwys i gynnig lefel digonol o reolaeth i'r Cyngor, a sicrhau bod gan yr LATC yr arbenigedd, y craffter busnes a'r gefnogaeth sydd ei angen arno i fod yn llwyddiannus mewn amgylchedd masnachol. Cynigir fod Bwrdd yr LATC yn cynnwys 7 aelod sy'n pleidleisio a allai gynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, yr Aelod Arweiniol sydd â chyfrifoldebau am Hamdden, Cadeirydd Pwyllgor Craffu, Aelod pellach o CSDd, Rheolwr Gyfarwyddwr yr LATC a'r Cyfarwyddwr Cyllid (swydd cyfrifyddiaeth ar gyfer yr LATC), ac un Cyfarwyddwr anweithredol o'r tu allan. Cynigir hefyd fod y Cyngor yn sefydlu ei Fwrdd Llywoodraethu Strategol ei hun i herio gwaith y Bwrdd LATC. Byddai hyn yn ychwanegol i fecanweithiau adrodd sefydledig y Cyngor sef y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet, y Cyngor, Craffu, Llywodraethu Corfforaethol ac ati.

4.8 I alluogi'r LATC i gael ei sefydlu fel endyd cyfreithiol, mae angen iddo fod ag un Cyfarwyddwr 'byw' ac enw, a dyma'r rheswm dros yr argymhelliad fod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo penodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, a'r enw i hwyluso datblygiad y prosiect. Mae hyn yn caniatáu amser i Banel Recriwtio'r Cyngor i adolygu'r penodiadau eraill gyda'r nod o wneud argymhelliad i'r Cyngor mewn perthynas â'r Bwrdd LATC, a'r Cabinet mewn perthynas â'r Bwrdd Llywodraethu Strategol.

4.9 Bydd y Cyngor yn contractio'r LATC i gynnal y gwasanaethau yn ymwneud â hamdden o fewn y cwmpas ar ei ran. Y cynllun yw y byddai'r LATC yn derbyn contract 10 mlynedd i roi ychydig o sicrwydd i'r dyfodol, gyda chylch cynllunio a mecanwaith lle cytunir bob blwyddyn ar lefel cymhorthdal y Cyngor a chanlyniadau/ buddion y mae'r Cyngor yn dymuno eu blaenoriaethu drwy ddarpariaeth gwasanaeth. Fel hyn, gellir herio'r LATC i sicrhau arbedion yn yr un ffordd ag adrannau eraill y Cyngor, i ymateb i bwysau ariannol yn y dyfodol. Yn yr un modd, os bydd yr LATC yn cynhyrchu incwm net ychwanegol o fasnachu tu allan i gontract y Cyngor, bydd hyn yn rhoi cyfle i leihau cymhorthdal y Cyngor, neu ail-fuddsoddi'r incwm yn y cyfleusterau, neu gymysgedd o'r ddau.

4.10 Bydd y contract rhwng yr LATC a'r Cyngor yn cael ei reoli'n fewnol, gan ddefnyddio math tebyg o reoli contractau o'r un a ddefnyddir ar gyfer contract Civica. Mae Penawdau'r Telerau ar gyfer y contract wedi eu cynnwys yn Atodiad D.

4.11 Bydd yr adeiladau / tiroedd a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer darparu'r Gwasanaethau Hamdden o fewn y cwmpas yn cael eu prydlesu i'r LATC ar rent pitw am gyfnod o 10 mlynedd a bydd y rhain gefn wrth gefn gyda'r contract. Bydd darpariaeth yn cael ei wneud o fewn y prydlesi i ddiogelu'r SLA presennol gydag ysgolion, a chynnal y fynedfa bresennol i'r adeilad ar gyfer etholiadau, gofynion argyfwng ac ati. Yn yr un modd, bydd mynediad yn cael ei gynnal i swyddfa'r Cofrestrydd yn Neuadd y Dref y Rhyl. Bydd y prydlesi'n nodi cyfrifoldeb cynnal a chadw'r Cyngor a'r LATC, a bydd ymweliadau arolygu arferol yn cael eu cynnwys. Yn gyffredinol, bydd y trefniadau hyn yn adlewyrchu'r trefniadau presennol rhwng Gwasanaethau Hamdden a Gwasanaethau Eiddo ac Asedau, gan gynnwys

prosesau penderfynu’r Cyngor ynghylch Cyfalaf (e.e. Grŵp Rheoli Asedau, SIG, y Cabinet, y Cyngor ac ati).

4.12 Bydd yr isadeiledd TGCh presennol, y gwasanaeth a’r gefnogaeth yn cael ei ymestyn i’r LATC. Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â ffioedd trwydded os na all yr LATC elwa o gyfraddau ffafriol presennol y Cyngor.

4.13 Er y bydd gweithredu LATC yn galluogi’r Cyngor i wneud arbedion ar NNDR a TAW, mae hefyd costau yn gysylltiedig â darparu’r gweithgareddau / swyddogaethau hamdden ‘o fewn y cwmpas’ drwy endid cyfreithiol ar wahân. Mae’r achos economaidd yn cymharu’r costau a manteision ariannol cyflwyno LACT o’i gymharu â’r model (‘gwneud dim’) presennol.

4.14 Amcangyfrifir y bydd yr arbedion yn £1,107,000. Mae’r cyngor NNDR a dderbyniwyd yn awgrymu y byddai gostyngiad 90% ar NNDR sy’n gyfystyr ag arbediad o £623,000. Bydd yr arbedion TAW yn seiliedig ar y cyngor a dderbyniwyd hyd yma yn isafswm o £284,000, ac mae cyngor pellach yn cael ei geisio mewn perthynas â’r arbedion TAW a fyddai’n gysylltiedig â ‘esemptiad diwylliannol’, ac i adolygu’r cyfleoedd mewn perthynas â SC2. Pan fydd y cwmni’n cael ei sefydlu bydd yn rhaid iddo gwrdd â'r chwyddiant cyflogau a chostau eraill ei hun, ac yn 2020/21 bydd hyn yn oddeutu £200,000. Y disgwyliad yw y bydd yr LATC yn parhau i gwrdd â’r costau chwyddiant hyn yn y blynyddoedd i ddod.

4.15 Mae’r arbedion NNDR a nodwyd o fewn 4.14 yn arbedion net o’r Ardoll Ardal Gwella Busnes ar y cyfleusterau ’cwmpas’ o fewn y Rhyl gan eu bod i gyd yn diwallu’r meini prawf a byddant yn talu’r ardoll o tua 2% ar werth ardrethol yr eiddo. Yn yr un modd, os bydd Ardaloedd Gwella Busnes eraill yn cael eu sefydlu, bydd cyfleusterau o fewn y cwmpas yn yr ardaloedd hynny yn atebol am dalu ardoll yr AGB llawn.

4.16 Mae nifer o gostau refeniw parhaus y gwyddom amdanynt y bydd yr LATC ac/ neu’r Cyngor yn gorfod eu talu os bydd yr LATC yn cael ei sefydlu, ac amcangyfrifir fod y rhain yn £304,000. Mae’r costau ychwanegol yn adlewyrchu’r angen am swydd cyfrifyddiaeth ar gyfer yr LATC, costau Cyfarwyddwyr ar gyfer y sicrwydd yswiriant a thâl ar gyfer unrhyw Gyfarwyddwyr annibynnol ar fwrdd yr LATC, costau rheoli contract, costau archwilio allanol, costau staffio sy’n gysylltiedig â dyraniad y Gwasanaeth Asedau, Cyfleusterau a Thai sy’n weddill, i feysydd Gwasanaeth eraill, gostyngiad mewn incwm defnydd deuol yn sgil gostyngiad NNDR, cynnydd posibl mewn atebolrwydd pensiwn a chostau trwyddedau meddalwedd, ac arian at raid o £150,000.

4.17 Yn seiliedig ar yr arbedion a’r costau a amlinellir uchod, amcangyfrifir y bydd yr arbediad net blynyddol ym mlwyddyn 1 yn £800,000. Bydd cost prosiect un tro o tua £100,000 ar gyfer gweithredu’r prosiect ac mae hyn yn gysylltiedig â chostau rheoli prosiectau a chyfreithiol. Mae mwyafrif y gwaith prosiect yn cael ei gwblhau gan ddefnyddio adnoddau mewnol i leihau costau.

4.18 Mae’r swyddogaethau “yn y cwmpas” ar hyn o bryd yn elwa o wasanaethau cynnal canolog y Cyngor o safbwynt rheolaeth ariannol, AD, a chyfreithiol, ymysg eraill, a’r bwriad am gyfnod o 3 blynedd fan lleiaf, yw fod y trefniadau presennol yn cael eu cynnal ar gyfer yr LATC lle bo modd, a fydd yn cyfyngu ar y cyswllt â chostau

ychwanegol ar gyfer gwasanaethau, ac yn cynorthwyo cyfnod pontio esmwyth. Bydd angen i'r Cyngor adolygu'r trefniant hwn a'r LATC ar ôl 3 blynedd.

4.19 O fewn yr Achos Ariannol, nodir mai lefel presennol y cymhorthdal ar gyfer y cyfleusterau, swyddogaethau a gweithgareddau o fewn y cwmpas yn seiliedig ar gyllidebau 2018/19 yw tua £3m, ac ar ôl addasiad ar gyfer yr arbedion a nodir yn 4.13 ac unrhyw newidiadau eraill a gytunir arnynt fel rhan o broses cyllideb 2020/21, bydd hyn yn gosod y sail ar gyfer gwerth y gwasanaethau y bydd y Cyngor yn eu contractio gan yr LATC. Mae'n gwbl glir y bydd gofyn i'r LATC gyfrannu at y broses o osod cyllideb y Cyngor bob blwyddyn, yn yr un modd ag y mae swyddogaethau "o fewn y cwmpas" wedi gwneud mewn blynyddoedd blaenorol.

4.20 Ceir manylion ynghylch darpariaeth prosiectau yn yr Achos Rheoli. Mae'r gwaith prosiect wedi ei rannu'n 2 gam penodol. Cam 1 yw'r cam cyn gweithredu a bydd yn cynnig cyfle i gynnig dilyniant ar unrhyw gyngor sy'n weddill, ac yn bryd i gynnal y cynllun prosiect manwl, a fydd yn cynnig gwiriad synnwyr o'r arbedion refeniw y gellir eu cyflawni drwy gyflwyno'r LATC, a bydd yn darparu mwy o sicrwydd ynghylch costau un tro gweithredu'r prosiect. Pan fydd gwaith Cam 1 wedi eu cwblhau'n foddhaol, bydd y prosiect yn ceisio awdurdod i fwrw ymlaen gan y Cabinet. Yn ystod cam 2, y cam gweithredu, mae'r gwaith yn cynnwys sefydlu'r LATC, paratoi'r fanyleb a'r contract ar gyfer y gwasanaethau i'w darparu gan yr LATC, paratoi staff ac adnoddau, a sefydlu trefniadau staffio gweddilliol.

4.21 Fel rhan o'r cam sefydlu, bydd y staff 'o fewn y cwmpas' yn cael eu trosglwyddo i'r LATC dan reoliadau TUPE. Bydd gan yr LATC statws corff derbyniedig i'r Cynllun Pensiynau Lleol a fydd yn golygu na fydd unrhyw newid i gynllun pensiynau'r staff sy'n cael eu trosglwyddo. Bydd yr LATC ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor, yn gyfreithiol byddai'r LATC a'r Cyngor yn cael eu hystyried fel eu bod yn rhan o'r un grŵp, ac felly bydd rhaid i'r staff o fewn pob un ohonynt gael telerau ac amodau cyfartal; bydd angen cynnal y "status quo" hwn am gyhyd â bod yr LATC yn parhau i fod y model darparu.

4.22 Yn ystod y cyfnod pontio o'r trefniadau gwasanaeth presennol i LATC, efallai y bydd angen cyflwyno trefniant staffio dros dro, i fwrw ymlaen ag unrhyw waith sydd ei angen ar ran yr LATC, cyn i unrhyw staff gael eu trosglwyddo'n ffurfiol. Ymhellach i benderfyniad i fwrw ymlaen â'r prosiect, bydd yr LATC yn cael ei sefydlu a bydd rhai personél allweddol yn cael eu trosglwyddo i ddechrau i'r LATC i weithredu ar ran y cwmni, a pharatoi am y diwrnod cyflwyno ym mis Ebrill 2020, pan fydd gweddill y staff yn cael eu trosglwyddo'n ffurfiol.

4.23 Pan fydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai yn trosglwyddo'n ffurfiol i'r LATC, bydd y Gwasanaethau gweddilliol a staff o FAH yn cael eu neilltuo i'r Penaethiaid Gwasanaeth sy'n weddill. Os na fyddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r LATC, yna ni fydd unrhyw newid i'r Gwasanaethau.

4.24 Dyma'r amserlenni dangosol ar gyfer y prosiect:-

- Argymhelliad y Cabinet a chymeradwyaeth y Cyngor i'r Achos Busnes / cymeradwyaeth arall a nodir yn yr adroddiad hwn, Ebrill/ Mai 2019
- Cymeradwyaeth y Cabinet ar ddiwedd cam 1 Mehefin/ Gorffennaf 2019
- Sefydlu'r LATC Gorffennaf / Awst 2019
- Dechrau paratoi'r fanyleb a'r contract, mis Awst 2019

- Trosglwyddo staff allweddol a dechrau'r cam gweithredu, mis Medi 2019
- Trosglwyddo staff gweddillol, mis Medi 2019
- Penodi'r Aelodau Bwrdd LATC sy'n weddill yn ffurfiol, mis Medi/ Hydref 2019
- Sefydlu Bwrdd Llywodraethu Strategol, mis Tachwedd 2019
- Yr LATC yn dechrau masnachu, mis Ebrill 2020.

Bydd angen cymeradwyaeth prosiect pellach wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen ac mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodiad E.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Ni fydd y penderfyniad yn cael effaith niweidiol ar Flaenoriaethau Corfforaethol, gan y bydd yr LATC yn cael ei gontractio gan y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau presennol yn gysylltiedig â'r gweithgareddau/ swyddogaethau o fewn y cwmpas.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae yna gost prosiect un tro o tua £100,000 os cymeradwyir gweithredu LATC. Mae'r achos busnes wedi cyfrifo y bydd arbediad refeniw net o £800,000 yn cael ei gyflawni ym mlwyddyn 1.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Cynhaliwyd y WIA gan grŵp amlddisgyblaeth o swyddogion yn cynrychioli Hamdden, AD, Cyllid, Cymorth i Fusnesau, Gwasanaethau Cynnal, Lles Cymunedol, Eiddo Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad Strategol a Rheoli Prosiectau.

7.2 Yn gyffredinol, aseswyd fod effaith y prosiect yn niwtral, gan adlewyrchu'r ffaith fod ystyriaeth ar hyn o bryd ynghylch ffordd arall o ddarparu set penodol o weithgareddau / swyddogaethau, nid yw'n ymwneud â chynnig gweithgareddau/ swyddogaethau gwahanol neu amgen.

**8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Ymgynghoriad allanol

- Trafodaeth gydag arbenigwyr cyfreithiol a TAW sy'n cynnig arbenigedd i'r prosiect.
- Awdurdodau lleol eraill sydd wedi sefydlu ADMC am y gwersi a ddysgwyd ganddynt.
- Swyddfa Archwilio Cymru am gyngor
- 'Partneriaethau Lleol' a sefydliad allanol sydd wedi cynnig arweiniad mewn perthynas â'r broses.
- Cyngor Tref y Rhyl mewn perthynas â'r buddiant o fewn SC2.
- Undebau Llafur mewn perthynas â'r effeithiau ar staff.
- Cyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â chyllid grant

8.2 Ymgynghori Mewnol

- Briffio'r Cabinet, y Cabinet, Gweithdy'r Gyllideb yr Aelodau lle rhannwyd y Prosiect yn anffurfiol, a Gweithdy Aelodau'n arbennig ynglŷn â'r ADM.
- Pob Grŵp Ardal Aelodau

- Adroddiadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghylch y Brîff Prosiect, a'r ail-strwythuro gwasanaethau sydd angen os cymeradwyir y prosiect.
- Briffio staff a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth wyneb yn wyneb gyda'r holl Reolwyr o fewn FAHS, briff ysgrifenedig i'r holl staff yn y maes hamdden, a Rheolwyr Canol ar draws y Cyngor, briffio staff wyneb yn wyneb gyda'r holl staff hamdden, ac ymgynghori ffurfiol gyda'r holl staff a effeithir gan unrhyw ailstrwythuro i wasanaethau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae cyfle i wneud arbedion sylweddol drwy ddarparu'r cyfleusterau a amlygwyd drwy wahanol strwythur cyfreithiol. Gan fod yn rhaid i'r Cyngor reoli pwysau cynyddol gyda llai o adnoddau, mae creu cwmni wedi'i reoli gan yr awdurdod lleol i weihtredu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a amlygwyd, yn creu cerbyd i gynhyrchu lefel o arbedion heb orfod torri yn ôl ar wasanaethau. Mae'r adroddiad yn amlinellu amcangyfrif o'r arbedion a'r costau sydd ynghlwm â'r penderfyniad.

9.2 Mae disgwyliad gan y Bwrdd Cyllideb y bydd ADM newydd yn parhau i gyfrannu at raglen arbedion y Cyngor ac y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau busnes i'r dyfodol. Mae model y cwmni arfaethedig yn cynnig strwythur cyfreithiol sy'n caniatáu ystyried twf masnachol ac, os bydd hyn yn llwyddo, gallai gyfrannu at y rhaglen arbedion a helpu lleihau lefel y cymorth ariannol gan y cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae risgiau ynghlwm â gweithredu'r LATC ac mae'r rhain wedi eu cynnwys yn yr achos busnes. Y prif risgiau yw:-

- Gallai newidiadau i Ddeddfwriaeth Genedlaethol yn y dyfodol atal yr arbedion a ragwelir o ran trethi busnes rhag cael eu gwireddu'n llawn.
- Efallai na chaiff yr arbedion TAW eu gwireddu'n llawn drwy fodel LATC nid er elw ac/neu bydd angen statws elusennol er mwyn i'r rheini gael eu gwireddu'n llawn, sy'n cynyddu'r gyfundrefn a reoleiddir a chostau cysylltiedig.
- Bydd costau un tro neu barhaus heb eu rhagweld gyda sefydlu'r LATC nad ydynt wedi eu hystyried ar y cam gweithredu.
- Nid fydd yr ADM mor llwyddiannus yn ariannol ag y gobeithiwyd a bydd unrhyw gostau ychwanegol yn ei sgil yn disgyn ar y Cyngor i'w hariannu ac/ neu ni fydd y Cwmni'n gallu ail-fuddsoddi'n ddigonol i'w weithgareddau bob dydd oherwydd diffyg cyllid.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

A2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

A95 Deddf Llywodraeth Leol 2003

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau)(Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006